# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3) 13-07)

**SLC75**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol**
**Enw: Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005 ac yn ailddeddfu, neu'n ailddeddfu gyda diwygiadau, ddarpariaethau a gynhwyswyd yn y Rheoliadau hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 ynglŷn â deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

Maent hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2023/2006 ynglŷn ag arfer gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC, sydd yn ymwneud â deunyddiau ac eitemau sydd wedi eu gwneud a gaen cellwlog atgynyrchiedig ac y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd. **Trefn: Negyddol** 1. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys esiamplau o iaith rhyw-benodol yn rheoliadau 19(3)(c) ("him") a 19(4) ("his") [Rheol Sefydlog 15.2(viii)] 2. Mae Rheoliad 19 (ac 20) hefyd yn cynnwys nifer o esiamplau o'r defnydd o "will" mewn perthynas â swyddogaeth y swyddog awdurdodedig. Os mai'r bwriad yw bod angen iddo ef gymryd y camau hyn, y ferf briodol yw "must". Os mai naratif syml ydyw o'r broses i'w defnyddio, nid yw'n fater priodol i'w gynnwys mewn deddfwriaeth. [Rheol Sefydlog 15.2(v)] Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd uchod a'i bod yn bwriadu cynnwys y newidiadau hyn pan gaiff y Rheoliadau eu diwygio y tro nesaf.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Tachwedd 2007